22 Ionawr 2024

Rhybudd ymlaen llaw o waith ffordd – Cyffordd 18 A55 (Cyffordd Llandudno)
Dydd Llun 29 Ionawr 2024 tan ddydd Llun 12 Ebrill 2024.

Mae Griffiths wedi ei benodi gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA) i greu Llwybr Teithio Llesol o fynedfa RSPB ar gylchfan y Gyffordd ar gyfer Cyffordd Llandudno ar yr A55 i gylchfan Junction Way ar yr A546 (Ffordd 6G).
Bydd y prosiect yn gwella cysylltedd ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

Mae'r cynllun yn cynnwys:

- Lledu'r llwybr cerdded rhwng ochr orllewinol cylchfan Cyffordd 18 yr A55 a'r A546 i ffurfio Llwybr a Rennir am 300m o'r gyffordd sy'n cynnwys mynedfa RSPB Conwy, hyd at y groesfan a reolir gan signalau sydd eisoes yn bodoli i'r gogledd o Junction Way.
- Gosod croesfan newydd a reolir gan signalau i'r de o Junction Way, ar draws yr A546
- Lledu'r llwybrau cerdded i'r de o gylchfan Junction Way er mwyn gwella mynediad i gerddwyr tuag at yr archfarchnad a chanolfan hamdden Cyffordd Llandudno
- Gosod ymylon palmant, croesfannau cyffyrddol a chroesfannau rheoledig newydd
- Creu llwybr beicio ar wahân ar draws trosbont cylchfan Cyffordd 18 yr A55
- Gosod arwyddion newydd
- Yr oriau gweithio arferol fydd 08:00 – 17:30 dydd Llun i ddydd Gwener
- **Bydd mynediad i'r archfarchnad, y Ganolfan Hamdden a Pharc Hamdden Cyffordd Llandudno yn cael ei gynnal drwy gydol y gwaith.**

Nodwch y bydd system unffordd ar waith rhwng cylchfan Tesco a'r gylchfan A55 i gyfeiriad Tesco rhwng 11 Mawrth a fydd yn para am bythefnos.



Sylweddolwn fod hon yn rhan brysur iawn o'r ffordd. Fodd bynnag, er mwyn i ni allu cwblhau'r gwaith yn ddiogel a chyn gynted â phosib, bydd rhaid defnyddio goleuadau traffig dros dro i reoli llif y traffig. Caiff y rhain eu rheoli â llaw yn ystod yr adegau prysuraf. Ymwelwch â'n tudalen wê am y prosiect: https://community.griffiths.co.uk/cy/home/

MANYLION CYSWLLT

Traffig Cymru

Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan Traffig Cymru a'u sianeli cyfryngau cymdeithasol:

Gwaith Ffordd Arfaethedig | Traffig Cymru @TrafficWalesN |@TraffigCymruG

@TrafficWalesN contact@traffic.wales 0300 123 1213

Griffiths

A55.Cyffordd.Junction18.ATS@alungriffiths.co.uk 03300 412 185

Yn gywir,

Rich Foxhall,
Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd

GRIFFITHS